Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Cultural Trust

awen Masnachu Trading

# NEWID HINSAWDD A CHYNALIADWYEDD AMGYLCHEDDOL: EIN HYMRWYMIADAU

Yn Awen, rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb i leihau ein hôl troed carbon ac amgylcheddol.

Rydym yn ymrwymo i fod yn elusen gyfrifol sy'n ymwybodol yn amgylcheddol.

## DATGANODD LLYWODRAETH CYMRU ARGYFWNG HINSAWDD YN 2019.

"Mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ac ecolegol yw'r her fwyaf ar gyfer ein cenedl ni."

LLYWODRAETH CYMRU, 2022

Mae gan Lywodraeth Cymru uchelgeisiau i'r "sector cyhoeddus gyrraedd sero net ar y cyd erbyn 2030". Bydd Awen yn gweithio gyda'i bartneriaid awdurdod lleol ledled de Cymru i gefnogi eu gwaith i gyflawni eu strategaethau a'u cynlluniau gweithredu sero net.

## ERS 2015, RYDYM WEDI:

- ✓ Buddsoddi mewn paneli solar a chael gwared ar beiriannau aneffeithlon.
- ✓ Gosod goleuadau LED yn lle rhai traddodiadol.
- ✓ Insiwleiddio ein hadeiladau, pan fo hynny'n bosibl.
- ✓ Gosod tapiau synhwyro i leihau gwastraff dŵr.
- ✓ Datblygu partneriaethau â chyflenwyr bwyd a diod lleol.
- ✓ Codi ymwybyddiaeth o arbed ynni gyda'r staff.
- ✓ Plannu coed ym Mryngarw i gefnogi bioamrywiaeth.
- ✓ Cytuno i'r Addewid Twf Gwyrdd.

## ERBYN IONAWR, BYDDWN YN:

- Datblygu cynlluniau i flaenoriaethu ynni adnewyddadwy ac arbed ynni a dŵr yn ein hadeiladau.
- Mesur ein hallyriadau carbon.
- Defnyddio mwy o gyflenwyr lleol.
- Lleihau'r gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi.
- Darparu cyfleoedd i grwpiau cymunedol lleol ddysgu sgiliau newydd.
- Cyhoeddi polisïau a chynlluniau gweithredu amgylcheddol ar ein gwefan.

green growth g pledge

Byddwn yn chwilio'n gyson am ffyrdd o wella'r modd yr ydym yn rheoli ein hadeiladau a'n gweithgareddau, i gynyddu arbedion, lleihau ein hôl troed carbon a hyrwyddo ein polisïau a'n prosiectau amgylcheddol i annog pawb i **'feddwl ac ymddwyn yn wyrdd'**.

## EFFAITH SERO NET AR GARBON

Cydbwyso allyriadau carbon â dileu a/neu wrthbwyso carbon gyda'r canlyniad net yn sero.

LLYWODRAETH CYMRU, 2022

## BUDDION NET AR GYFER BIOAMRYWIAETH

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl gyrff cyhoeddus *"gynnal a gwella bioamrywiaeth"* a *"hybu cydnerthedd ecosystemau"* gan gynnwys:

- EFFEITHLONRWYDD DŴR
- DIM GWASTRAFF ERBYN 2050
- GWELLA MANNAU GWYRDD

## CYFLAWNI SERO NET AR GARBON A BUDDION NET I FIOAMRYWIAETH

- Lleihau ein defnydd o ynni a chynhyrchu ein hynny adnewyddadwy ein hunain.
- Lleihau cymaint â phosibl y defnydd o gludiant a manteisio ar atebion carbon isel er enghraifft cerbydau trydan.
- Mabwysiadu cynlluniau lleihau gwastraff ac ailgylchu, gan gynnwys dileu plastigau untro.
- Gweini cynnyrch lleol a thymhorol i leihau milltiroedd bwyd.
- Datblygu safle Bryngarw gyda chynaliadwyedd, bioamrywiaeth a'r amgylchedd wrth ei graidd.
- Dangos arweinyddiaeth wrth hybu ymwybyddiaeth ac arferion amgylcheddol gyda'r staff.

**MAE AWEN YN YMRODDEDIG I LEIHAU'R EFFEITHIAU NEGYDDOL A GAIFF AR YR AMGYLCHEDD A CHYDYMFFURFIO Â DEDDFWRIAETH AMGYLCHEDDOL.**

***BYDDWN YN MYND YMHELLACH DRWY FOD Â'R NOD O GYMRYD CAMAU FYDD YN CAEL EFFAITH GADARNHAOL AR YR AMGYLCHEDD.***

Mae gennym gyfres benodol o amcanion i'n helpu i fonitro'r cynnydd tuag at nod sefydliadol Awen o fod yn 'fusnes cyfrifol a chynaliadwy'.

Bydd y rhain hefyd yn ein helpu i sicrhau bod ein camau amgylcheddol yn cyd-fynd â rhai ein rhanddeiliaid allweddol megis awdurdodau lleol sy'n bartneriaid, Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru.

Darllenwch fwy yn www.awen-wales.com →